**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

05 Awst 2024

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Annwyl Delyth,


Diolch i chi ac Aelodau eraill y Pwyllgor am ymuno â ni yn ein sesiwn friffio dechnegol yn ddiweddar ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Yn dilyn y sesiwn hon ar 17 Gorffennaf, gwnaethom ystyried ein dull o graffu ar y Bil, a chytunwyd i wahodd aelodau o'ch Pwyllgor i gymryd rhan yn ein gwaith craffu Cyfnod 1.

Mae'r gwahoddiad hwn yn cael ei roi o dan Reol Sefydlog 17.49, lle caiff Aelodau nad ydynt yn aelodau o bwyllgor, gyda chaniatâd y Cadeirydd, gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor, ond na chânt bleidleisio. Dyma'r un sail a ddefnyddiwyd ar gyfer rhai o'n Pwyllgor yn cymryd rhan yn eich ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Atodiad 1 yn nodi'r cyfarfodydd tebygol pan fyddwn yn cynnal gwaith craffu ar y Bil. Nid yw'r union amseriadau wedi'u cadarnhau eto, ond byddwn yn rhannu'r manylion hyn cyn gynted ag y bydd yr amseroedd gennym ni.

Rhowch wybod i ni erbyn dydd Llun 9 Medi pa un o'ch Aelodau, os o gwbl, sy'n bwriadu ymuno â ni, naill ai ar gyfer rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1, neu'r cwbl. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael yr holl wybodaeth berthnasol cyn cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

# Atodiad 1 - Rhaglen waith y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Dydd Iau 19 Medi** | Sesiwn gyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 1: Yr Aelod sy'n Gyfrifol |
| **Dydd Iau 26 Medi** | Sesiynau cyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 2<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 3<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 4<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 5 |
| **Dydd Mercher 2 Hydref** | Sesiynau cyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 6<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 7<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 8 |
| **Dydd Mercher 9 Hydref** | Sesiynau cyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 9<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 10<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 11<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 12 |
| **Dydd Iau 17 Hydref** | Sesiynau cyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 13<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 14<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 15 |
| **Dydd Iau 24 Hydref** | Sesiwn gyhoeddus:<br>Sesiwn dystiolaeth lafar 16: Yr Aelod sy'n Gyfrifol<br>Sesiwn breifat:<br>Materion allweddol |
| **Dydd Iau 28 Tachwedd** | Sesiwn breifat:<br>Trafod yr adroddiad drafft |
| **Dydd Mercher 4 Rhagfyr** | Sesiwn breifat: |

| | |
|---|---|
| | Trafod yr adroddiad drafft |
| **Dydd Gwener 13 Rhagfyr** | Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 |